***Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Canolfan y Noddfa ac Ysgol Gymraeg Tredegar***

***Yn gosod Sylfaen Gadarn ar gyfer Dyfodol Disglair***

LLYTHYR GAN Y CYNGOR YSGOL

Annwyl Ymgeiswyr,

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn le hyfryd i fod. Mae'r athrawon yn garedig ac yn hwyl ac mae gwersi yn ddifyr ac yn ddiddorol. Mae gennym ddosbarth lle rydyn ni'n dysgu yn y tu allan yn ogystal ag offer TGCh arbennig o dda (iPads, gliniaduron, argraffydd 3D, gorsaf radio, Lego Spike a Sphero.) Rydyn ni hefyd yn mwynhau treulio amser ein llyfrgell hardd le rydyn ni'n gallu dewis llyfrau i gymryd adref i ddarllen. Rydyn ni hefyd yn mwynhau defnyddio rhaglenni fel TT Rock Stars, DarllenCo a Giglets i helpu ni yn yr ysgol ac yn y tŷ.

Rydyn ni hefyd yn mwynhau digwyddiadau fel disgo Calan Gaeaf a diwrnodau gwisgo lan i godi arian ar gyfer elusennau. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael ymwelwyr (Cerddoriaeth Gwent, Technocamps, Dreigiau Gwent, sesiynau diogelwch tan a Mr Harris yn gwneud sesiynau canu.) Mae pawb yn mwynhau tripiau ysgol!

Rydyn ni'n gobeithio bydd ein Pennaeth newydd yn:

- garedig,
- tipyn bach yn 'strict;'
- ddoniol;
- hapus;
- galw heibio dosbarthiadau pob dydd a dweud "Bore da!"
- gwrando ar ein syniadau ni er mwyn gwella'r ysgol;
- siarad yn dda e.e. gwneud gwasanaethau diddorol ac yn dathlu llwyddiant disgyblion;
- hoffi chwaraeon ac yn gallu helpu ni i chwarae yn ystod amser egwyl a chinio (os nad ydyn nhw yn brysur mewn cyfarfod.)
- gosod esiampl dda i ni;
- parchu ein hawliau ni;
- dda gyda thechnoleg ac yn
- rhywun efo personoliaeth dda.

Mae gennym ambell syniad o sut gallwn wella'r ysgol ymhellach felly edrychwn ymlaen at gwrdd â chi er mwyn trafod!

Y Cyngor Ysgol.